"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1885. [RHIF 52.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Dyn	265
Buwch yn dysgu Duwinyddiaeth	269
Maddeuant	270
Yr Alltud at ei Ferch	272
Gweddi	273
Marwolaeth Arthur	276
Y Rhuban Glas	276
Nodynau Gwasgarog	277
Agoriad Byr ar Weddi'r Arglwydd	280
Gwrthryfel yn mhlith y Curadiaid	281
Manion a Hanesion	282
Marwgofion	283

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1885. [RHIF 55.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

DYN.

WEDI cael ar ddeall fod iechyd y Parch. W. James, B.A., Llandyssul, yn gyfryw ag i'w analluogi i gyflawnu yr addewid mewn perthynas i'r pwnc uchod, mi a feddyliais, dan yr amgylchiadau, y gallai ychydig sylwadau fod yn dderbyniol, nid yn gymmaint yn lle eiddo Mr. James ag i lenwi'r bwlch nes delo efe yn barod (da operam, ut convalescas).

Yr wyf newydd fod yn darllen llyfr Fiske ar "*The Destiny of Man in the Light of his Origin*;" ac y mae hwnw wedi peru peth chwant arnaf i ysgrifenu. Nad faint y mae gwybodaeth yn cynnyddu, y mae dyn yn parhau yn bwnc dyddorol i ddyn o hyd, a llawer yw'r dyfaliadau a'r amcandybiau am dano.

O ba le y daeth?
Beth yw?
I ba le y mae yn myned?

Dyma rai o'r cwestiynau y carem foddloni ein hunain yn eu cylch, a dyma'r pynciau y mae ein cyndeidiau wedi bod yn myfyrio uwch eu penau yn ystod blynyddoedd y gorphenol. Fel y mae gwybodaeth yn eangu, y mae syniadau dynion braidd o angenrheidrwydd yn cyfnewid. Yn raddol iawn, fodd bynag, y ceir fod gwybodaeth yn gweithio ei ffordd i lawr i blith y werin, ac yn enwedig y Werin Gymreig. Nid yw seryddiaeth y werin yn awr yn gwahaniaethu nemawr oddiwrth yr hyn oedd yn yr amser yr ysgrifenodd Dante ei *Divina Comedia*; na'u duwinyddiaeth ddim yn wahanol iawn i'r hyn y gadawodd John Calvin hi. Yn meddwl Dante, cartref dyn ar y ddaear oedd canolbwynt y greadigaeth, ac er ei fwyn ef yr oedd yr haul yn rhoddi ei oleuni a'i wres, a'r sêr yn myned ar eu cylch dirgel, y gwyntoedd yn chwythu, y llifogydd yn codi, a'r pla dinystriol yn myned ar ei daith—oll er ben-

dith, er rhybudd, neu gerydd i'r penaf o greaduriaid Duw, sef Dyn. Ac ar gefn rhyw amgyffrediad fel hyn yr oedd yr holl dduwinyddiaeth megys yn gorphwys. Ond gyda goleuni darganfyddiadau seryddol Copernic, bydd yn rhaid i lawer o hynyma ddiflanu i limbo y breuddwydion. Nid yw y ddaear i fod mwy ond un, a hono bron y lleiaf o'r planedau; y canolbwynt yw yr haul, ac nid yw yr haul a'i gyssawd gydag ef, ond megys darn bychan yn meithder anherfynol creadigaeth Duw. I gyfoedion Copernic, yr oedd y gyfundrefn newydd yma yn ymddangos fel yn myned dan seiliau y dduwinyddiaeth boblogaidd, ac felly, nid ydym i synu fod yr eglwys yn erlid dynion fel Galileo a Bruno. Ond nad beth am hyny, mawr yw y gwirionedd, ac efe a saif. Nid oes modd gwrthwynebu yn effeithiol, bellach, y darganfyddiad pwysig hwn, yr hwn sydd wedi ei gadarnhau trwy yr hyn y mae Kepler a Newton wedi ei wneuthur. Hwn oedd y chwyldroad mwyaf oedd wedi ei effeithio hyd yma yn ngolygiadau dyn yn nghylch ei berthynas â'r bydysawd yn yr hwn y mae yn byw, ac o'r hwn y mae yn ystod ei fywyd presenol yn ffurfio—rhan.

Yn y ganrif bresenol, fodd bynag, y mae chwyldroad mwy fyth wedi ei effeithio. Nid yn unig y mae Lyell wedi eangu ein harolwg meddyliol mewn perthynas i amser, gymmaint ag y gwnaeth Newton ei eangu mewn perthynas i le (*space*). Trwy lwybrau annherfynol amser a lle dygir ni i gyffyrddiad â chyfnewidiadau parhaus. Ar bob llaw, ceir dadblygiadau amlwg, bydoedd, organgyrff, cymdeithasau, mewn gwahanol *stages* o gynnydd neu o ddarfodedigaeth. Nid yw ffurfiau uwchaf bywyd—hyd y nod dyn ei hunan—ond disgynyddion cyfnewidiedig oddiwrth ffurfiau is. Nis gellir mwy, fel y ceisiodd Cuvier, wneuthur dyn yn greadur ar wahan. Perthyna i ddosparth lluosog o greaduriaid yn y teulu eppäaidd—y linc ddiweddaf, feallai, o'r gadwyn. I'r syniad yma y mae llyfr Darwin yn arwain, ac y mae athronwyr pwysig yn awr yn teimlo nas gellir gosod y syniad hwn o'r neilldu yn fwy nag y gellir gosod o'r neilldu seryddiaeth Copernic. Nid yw yn rhyfedd fod y syniad yn anmhoblogaidd gan rai. Y mae yn iselhau dyn yn eu golwg, ac yn ei wneuthur yn ddim gwell na'r anifail a ddyfethir. Ond bob yn ychydig, fe ddeuir i weled, megys gyda seryddiaeth Copernic, felly gyda chyfundraeth Darwin, fod genym olwg uwch ac ardderchocach ar waith Duw nag a gafwyd erioed o'r blaen. Dengys Darwiniaeth i ni am y tro cyntaf yn amlwg mai creadigaeth a pherffeithiad Dyn yw y nod (*goal*), at yr hwn y mae gwaith natur wedi bod yn cyrchu o'r cychwyn.

Ni cheir ar y ddaear byth uwch creadur na dyn. Nid gyda breuddwydion, nid gyda dychymygion yr ydym yn ymdrin yn awr, ond gyda ffeithiau natur. Ceir y ffurfiau is o fywyd yn raddol yn newid i'r ffurfiau uwch, yn benaf, trwy weithrediad deddf "Dewisiad Naturiol." Yn yr "Ymdrech am Fodolaeth," nid oes yr un neilluolrwydd o gorff neu feddwl (*physical or psychical**), nad pa mor fychan,

* *Phys*—natur, *Psych*—bywyd, enaid, sylfaen ymwybyddiaeth, ei ddadblygiad yn ymddangos yn nhyfiant yr ymhenydd.

wedi bod yn rhy ddibwys i'r "Dewisiad Naturiol" i ddal arno a'i gynnyddu. Nid yw yr amrywiaethau *Psych*-aidd erioed wedi bod yn ddibwys. Ar y cyntaf, y mae yr amrywiaethau yn fwy yn rhanau y corff; ond bob yn ychydig wedi oesau dirif y mae adeg yn do'd, adeg ryfeddol, yn ddystaw ac yn ddisylw, fel y mae dechreuadau pob chwyldroadau mawrion—fel lleidr yn y nos, pan y mae amrywiaethau'r meddwl yn dyfod yn fwy o bwys nag amrywiaethau'r corff i flaenafiaid pellenig teulu Dyn. Gyda threigliad oesau mae yr amrywiaethau yn cymmeryd lle yn fwyfwy mynych yn yr ymhenydd, ac yn llai yn y rhanau ereill o'r organgorff, nes bob yn ychydig y mae yn dyblu ei faintioli, a chymhlethigrwydd ei ffurfiad yn cynnyddu ar ei filfed, tra mewn pethau ereill, nid yw yn amrywio oddiwrth ei frodyr eppäaidd. Gyda chynnydd yr ymhenydd y mae yn dyfod yn greadur deutroed ac yn sefyll yn syth, ac yn dyfod i feddiant o'r pen a'r wynebpryd ydynt yn nodweddiadol o Ddyn. Nid oes un ffaith yn natur yn gyflawnach o ystyr dwfn, na'r ffaith ddwy-ochrog hon o'r cyffelybrwydd rhyfeddol o ran ffurf corff, a'r amrywiaeth, anfeidrol braidd o ran meddwl (*psychical*) sydd rhwng Dyn a'r dosparth hyny o anifeiliaid oddiwrth yr hwn y mae yn olrhain ei achyddiaeth. Dengys fod pennod newydd yn hanes y bydysawd wedi dechreu gyda Dyn. O hyn allan, daeth yr enaid—y *nascent soul*—i fod yn flaenaf o ran pwys, a'r bywyd corfforol yn iswasanaethgar iddo. O hyn allan, gwaith mawr Dadblygiad yw, nid cynnyrchu rhywogaethau newydd, ond dwyn oddiamgylch gynnydd gwareiddiad, ac felly, os gwir hyn, yr ystyr yw, nas gall ddyfod etto rywogaeth arall o greaduriaid yn uwch na Dyn. Mae cyfundrefn Darwiniaeth yn hollol groes i un syniad o'r fath. Yn ol Darwiniaeth, creadigaeth Dyn oedd y nod at yr hwn oedd Natur o'r cychwyn yn cyrchu. Nid cynnyrchu uwch creadur, ond perffeithio Dynoliaeth yw y gwaith mawr a gogoneddus sydd gan Natur i'w orphen yn y dyfodol, Fel hyn, yr ydym yn dyfod i'r casgliad fod Dyn yn ymddangos yn awr, yn fwy amlwg nag erioed, y penaf o greaduriaid Duw. Trwy ymdrechion dirif y gorphenol—ymdrechion am fodolaeth—y mae yr holl greadigaeth wedi bod yn "griddfan ac mewn gwewyr," er dwyn i fôd yr enghreifftiau olaf a pherflaith yma o waith llaw Duw—yr Enaid Dynol.

Nid yw "Dewisiad Naturiol" neillduolion meddyliol (*psychical*) yn ddigon o honynt eu hunain i gyfrif am ddechreu Dyn, feallai, ac i egluro y gwahaniaeth pwysig rhyngddo ag anifeiliaid ereill. Mae y gwahaniaeth yn wahaniaeth mewn rhywogaeth. Na chamddealler hyn, fodd bynag. Sylwer ar y gwahaniaeth rhwng *nebula*, haul, planed tebyg i'r ddaear, a phlaned tebyg i'r lloer, y mae yn fawr iawn, er nad yw y pedwar ond enghreifftiau o'r un fath ddefnydd mewn gwahanol *stages* o oeri. A thrachefn dyna ager, dwfr, ia, tri amrywiaeth o'r un defnydd, ac mor wahanol yr ymddangosant. Felly yn y byd organaidd, mae adeg yn do'd ar lwybr dadblygiad pan y mae dau wrthddrych, er ar yr un llinell, yn briodol yn cael eu cyfrif fel yn perthyn i ddau rywogaeth. Ni phetrusem ddywedyd fod carn ceffyl o rywogaeth wahanol i bawen cath, ac etto, y mae carn ceffyl yn gyfansoddedig o bump

pawen wedi tyfu yn nghyd. Mae y cyfnewidiadau mwyaf amlwg yn codi pan fyddo organ sydd wedi arfer gwasanaethu un achos yn cael ei gyfleu at achos arall, megys awyr-bledren y pysgodyn i fod yn ysgyfaint creadur yn byw ar y tir; ac y mae'r chwyldroad yn dyfod yn fwy pan fyddo'r cyfnewidiad yn gosod ar waith amryw gyfnewidiadau ereill, gan ddadgloi cyfres ar ol cyfres o achosion newyddion a dwyn oddiamgylch gyflwr o'r diwedd mor ryfeddol nas gallai neb fyth ei ddychymygu yn flaenorol. Dyma'r cyflwr gyrhaeddwyd ar ymddangosiad Dyn. Ar yr adeg hono fel yr awgrymwyd eisoes y daeth yr amrywiaethau meddyliol i fod yn fwy o bwys na'r rhai corfforol. Mae y deall yn cryfhau gyda chynnydd yr ymhenydd, a phennod newydd yn dechreu yn hanes y cread, a chyfres newydd o gyfnewidiadau lluosog a phwysig yn dechreu.

Cymharer rhai o'r gweithrediadau neu symmudiadau a gymmerant le mewn creadur—curiadau y galon, gwaith yr ysgyfaint, symmudiad y gwaed trwy y rhedweliau, &c., ânt yn y blaen o ddechreu bywyd i'w ddiwedd, a chyflawnir hwy cystal ar y dechreu ag ar unrhyw adeg mewn bywyd, a bron yn hollol heb ymwybyddiaeth. Mae bywyd meddyliol yr anifail yn gynnwysedig yn yr ychydig bethau hyny yn benaf a sicrhant iddo ei fwyd, ac a'i dyogelant rhag perygl, pethau yn dybynu mewn ffordd ar reddf. Mae o'r dechreu yn feistr arnynt oll; ond fel y deuwn i fyny yn y raddfa anifeilaidd cawn gyfnewidiad pwysig, mwy o ddeall yn dwyn mwy o amrywiaeth a mwy o brofiadau —gwaith yr anifail yn dyfod yn fwy cymmhlethiedig. Nid yw adeg cynenedigaeth yn ddigon bellach i berffeithio yr organgorff—yr hyn oedd gynt felly yn cael ei gyflawni cyn geni, yn awr yn cael ei gyflawni ar ol geni. Nid yw y creadur mwy yn cyrhaedd perffaith organeiddiad cyn ei eni. Felly y cawn ni y baban yn hir yn gofyn help a gofal arall.

Gyda gwawriad cyntaf *ymwybyddiaeth* y cawn ni'r rhag-gysgodiad o wir fywyd yr enaid. O ba le y daeth yr enaid nis gwyddom, yn fwy nag y gwyddom o ba le y daeth y bydysawd, oddieithr eu bod ill dau wedi deilliaw oddiwrth Dduw; er hyny, gwyddom rywbeth am y telerau dan y rhai yr ymgnawdolodd mewn ffurfiau materol. Yn llwybr dadblygiad y mae y bywyd ymwybodol yn fwy pwysig. Bywyd anymwybodol yw bywyd y creaduriaid is fwyaf o hono; y maent felly fel y dywed Descartes yn *automata*. Mewn perthynas i reddf hefyd, ac yn enwedig lle mae y reddf yn berffaith ar y dechreu, y peth tebyg yw nad oes yno ychydig neu ddim ymwybyddiaeth. Pan fyddo un yn dechreu chwareu darn newydd ar y *piano* neu yr *harmonium*, ac yn enwedig os na fydd yn darllen cerddoriaeth yn rhwydd, y mae'r gallu ymwybyddol ar y *stretch* eithaf; ond pan fyddo'r darn wedi ei feistroli nid yw y meddwl yn gymmaint ar y *keys* a'r *notes* ag ar garacter y gerddoriaeth. Mae organau ymwybyddiaeth yn rhanau uwchaf ac allanol yr ymhenydd, ac fel y mae y rhanau yma yn cynnyddu y mae dealldwriaeth yn cynnyddu. Ceir fod ymhenydd (cranial capacity) yr Ewropead 40 modfedd yn fwy nag eiddo yr Awstraliad, yn agos pedair gwaith cymmaint ag y mae eiddo yr Awstraliad yn fwy nag eiddo y

Gorila. Ond dengys cynnydd dealldwriaeth nid yn unig gynnydd yn maintioli yr ymhenydd ond yn y rhygnau (furrows) ynddo. Ceir mwy o rygnau yn ymhenydd cath nag yn ymhenydd epa; ac yn ymhenydd ysgolor mawr ceir rhygnau mawrion a dyfnion nad ydynt i'w gweled o gwbl yn eiddo dyn cyffredin.

(*I'w barhau.*)

BUWCH YN DYSGU DUWINYDDIAETH.

Hen ddyn od iawn oedd yr hen Mr. Burnal. Pan oedd yn blentyn bach yr oedd yn od. Nid oedd am gripian na cherdded na chwareu fel plant ereill. Yr oedd yn well ganddo gripian o ochr i ochr, neu ynte yn mlaen yn hytrach nag yn ol. A phan yn fachgen, nid oedd un ag oedd yn chwareu wrth ei fodd, nac un cynllun o eiddo arall yn hollol iawn. Pan fyddent hwy yn scâtio yr oedd efe am slidro; pan fyddent hwy am lithro i waered y bryn, yr oedd efe am redeg ar yr iâ. Pan fyddent hwy yn darllen yn y ffordd arferol, troai efe ei lyfr a'i ben isa'n ucha, a dysgai ddarllen yn y fel hyny. Nid ei fod yn greadur croes nâ sarug, ond yn unig yn od. Yr oedd am gael pob peth wedi eu wneuthur yn ei ffordd ei hun. Pan ddaeth yn ddyn marchogai y cefn noeth, tra fyddai ereill ar gyfrwy. Godrai ei fuwch ar yr ochr dde yn lle'r un aswy. Gosodai ych yn yr *harness* gyda'i hen geffyl. Ac meddai'r bobl, "Dyn od yw Mr. Burnal," a dyna i gyd ddywedent.

Ond mewn rhai manau caffai Mr. Burnal hi yn waith anhawdd i gyd-deithio â phobl ereill. Yr oedd hyny yn neillduol felly ar y Sul. Nid oedd byth yn gallu mwynhau y canu yn y cwrdd, am nad oedd y cantorion yn dewis y tônau iawn; ac nid oedd yn gallu mwynhau y gweddiau, gan eu bod yn wastad yn rhy fyrion neu rhy hirion, yn rhy ddyrys eu hymadrodd neu ynte yn rhy syml. Yr oedd yn wastad allan o *joint*. Os byddid yn gweddio dros y paganiaid, yr oedd yn tybied y gellid cofio am y paganiaid gartref yr un cystal. Os enwid y cenedloedd, meddyliai y dylid enwi yr Iuddewon hefyd. Yn wastad yr oedd rhywun yn cael ei osod i fewn neu yn cael ei adael allan na ddylid. Nid oedd efe "yn meddwl achwyn na ffeindio bai," meddai efe, ond yr oedd "yn caru cael pethau wedi eu gwneuthur yn iawn." Druan ag ef, nid oedd byth yn cael dim wedi ei wneuthur yn iawn!

Ond gofid mwy fyth oedd y pregethu. Proffesai garu y pregethwr, ac *yr oedd* yn ei garu cystal ag y gallai efe garu neb. Ond yr oedd rhyw gamsyniadau dychrynllyd yn ei bregethu. Weithiau yr oedd pwnc o'r pwys mwyaf yn ei dyb ef yn cael ei adael allan. Weithiau yr oedd pethau yn cael eu gosod i fewn nas gallai neb eu deall. Weithiau yr oedd pethau hereticaidd bron yn cael eu hawgrymu. Beth oedd ganddo i wneuthur? Yr oedd yn rhoi awgrymiadau ac holebion i'r gweinidog, ac yr oedd y gweinidog yn eu pasio i ffwrdd mor dawel ac mor garuaidd fel yr ymddangosai yn debyg i arllwys dwfr ar gefn hwyad.

O'r diwedd, pan yr oedd amynedd i bob ymddangosiad yn mron wedi darfod, aeth drosodd at ei gymmydog Job Jacob y diacon, ac arllwysodd ei ofidiau i glustiau hwnw. Yn awr, dyn tawel oedd Job, ni ddywedai lawer, ond meddyliai fwy. A phan lefarai yr oedd yn wastad at y point. Gwyddai am Mr. Burnal yn eithaf da, gwyddai am ei hynodion; a chymmerai amynedd mawr gydag ef, ac yr oedd ganddo barch mawr tuag ato. Arferai ddywedyd "Mae Mr. Burnal yn caru chwyrnu, ond 'dydy e' byth yn cnoi mewn gwirionedd."

Yr oedd y diacon ar y ffordd i'r ysgubor i fwyda y da, pan y daeth Mr. Burnal i fyny ato gyda'i gyfarchiad "Nos da i chwi—os gallaf alw noson mor oer yn *dda*. Yn awr Job, yr ydych chi'n ddiacon, ac y mae genyf air bach i'w ddywedyd. 'D alla'i ddim goddef ein pregethu ni! 'Dydw i'n cael dim lles. Mae cymmaint ynddo nad wyf fi am dano, fel yr wyf yn teneuhâu arno. Yr wyf yn colli amser."

"Mr. Burnal, deuwch i fewn yma! Dyna fy muwch *Thankful*—gall ddysgu tipyn o dduwinyddiaeth i chwi!"

"Buwch yn dysgu duwinyddiaeth! Beth ydych yn feddwl?"

"Yn awr edrychwch. Dyna fi wedi taflu pigaid o wair iddi. Dyna nawr, mae wedi cael pren ynddo (chwi wyddoch fe ddaw coed i fewn i'r gwair, gwnewch a fynoch), a gwelwch hi yn ei daflu ar y naill du ac yn ei adael, ac yn myned yn y blaen yn bwyta yr hyn sydd dda. Dyna etto! Mae wedi cael ysgallen, mae'n ei daflu ar y naill du, ac yn myned yn y blaen yn bwyta. Ac etto! Nid yw yn blasu llygaid y dydd, ac y mae'n eu gadael ac—yn myned yn y blaen yn bwyta. Cyn y boreu bydd wedi clirio yr oll, oddieithr ychydig goed a chwyn, a bydd yn barod i roi llaeth. Mae llaeth yn y gwair yna, a gwyr hithau y ffordd i'w dynu allan, er gwaethaf y ffaith ei bod yn dyfod yn awr ac yn y man ar draws tamaid o bren neu o chwyn—y rhai y mae'n adael ar ol. Ond pe gwrthodai fwyta, a phe treuliai ei hamser yn crintachu ar yr ogor, gwnelai hithau hefyd "fyned yn deneu," a gwnelai ei llaeth sychu i fyny. Felly'n gywir gyda'n pregethu ni. Caffed yr hen fuwch ddysgu gwers i chwi. Ceisiwch yr holl dda a alloch allan o hono, a gadewch y gweddill ar ol. Chwi gewch allan fod llawer iawn o feithriniaeth ynddo."

Arosodd Mr. Burnal yn ddystaw rai munydau, ac yna trodd i ffwrdd, gan ddywedyd, "Job, nid yw yr hen fuwch ddim yn ffwl o leiaf."

C. F.

MADDEUANT.

Arferai hen gardotyn o'r enw Jaques gymmeryd ei le am flynyddoedd lawer ar risiau un o'r eglwysi yn Paris. Gwr trymaidd yr olwg arno ac heb air i'w ddywedyd wrth neb, ac na wnelai ddim ond plygu ei ben yn gydnabyddiaeth am yr elusen a roddid iddo. Trwy ddamwain, gwnai ei garpiau weithiau ollwng i'r golwg groes aur a wisgai ar ei

ſynwes. Daethai yr Abbe Paulin yn rheolaidd i'r eglwys dan sylw, ac ni phasiai byth heb roddi rhywbeth i'r cardotyn. Yr oedd efe yn gyfoethog, ac yn treulio ei ffortun yn cynnorthwyo y tlodion. Nid oedd Jaques yn ei adwaen, ond yr oedd yn ei garu. Wedi ychydig amser, nid oedd Jaques i'w weled mwyach yn ei hen le, a thybiodd yr Abbe ei fod wedi ei gymmeryd yn glaf; felly wedi ymholi aeth i ymweled ag ef. Cafodd ef yn dost iawn ac yn gorwedd ar wely gwael. "Ah, M. L' Abbe," eb' efe, "yr ydych yn dda iawn, ac wedi dyfod i ymweled â mi. Nid wyf yn ei haeddu." "Beth ddywed'soch chi, gyfaill? Oni wyddoch fod yr offeiriad yn gyfaill pawb dyoddefwyr? Ac heblaw hyny, yr ydym ni yn hen adnabyddiaeth." "O syr, pe gwyddech, ni lefarech felly wrthyf!" "Ah, gyfaill, peidiwch dweyd felly. Os ydych wedi gwneyd drwg, cyfaddefwch, edifarhewch, y mae maddeuant i bechaduriaid edifeiriol." "Dim, dim, i mi, ni faddeuir byth i mi." "Paham hyny? Onid ydych yn edifeiriol?" "Ydwyf yn wir, yn wir! Yr wyf wedi edifarhau am ddeng mlynedd ar hugain, ond y mae y felldith yn aros arnaf o hyd." Ceisiodd yr offeiriad caredig ei gyssuro a'i galonogi, ond bu'n hir cyn llwyddo i gael gyda'r adyn tlawd i ddadguddio y dirgelwch ofnadwy. O'r diwedd, wedi cael ei ddarbwyllo i gyffesu y pechod oedd yn gwasgu mor drwm ar ei gydwybod, adroddodd fel yma: Cyn amser y Chwyldroad Mawr yr oeddwn yn oruchwyliwr mewn teulu cyfoethog. Yr oeddynt oll yn bobl dda iawn—y Count a'r Countess, eu dwy ferch a'u mab. Yr oeddwn yn ddyledus iddynt am bob peth. Daeth tymhor y Dychryniadau—dygais gyhuddiadau yn eu herbyn, fel y gallaswn gael eu cyfoeth. Dedfrydwyd hwy oll i farwolaeth—oll, oddigerth Paulin bach, yr oedd efe yn rhy ifanc. Clywais y ddedfryd, gwelais hwy yn myned i mewn i'r cerbyd, gwelais y pedwar pen yn cwympo—angenfil fel yr oeddwn, angenfil fel yr wyf! Nid wyf byth oddiar hyny wedi cael un eiliad o heddwch. Yr wyf yn eu gweled yn awr—dacw hwy y tu cefn i'r llen yna! Eiddo fy meistr oedd y groes yma, a'r groes fechan aur hon, eiddo fy meistres oedd. O, M. L' Abbe, tosturiwch wrthyf, maddeuwch i mi, ond och! peidiwch fy ngadael." Cododd yr offeiriad oddiar ei liniau, mor welw a'r angeu, ac wedi gwneuthur arwydd y groes, neshaodd at wely y claf. Yr oedd yno ddau ddarlun y tu cefn; wylodd yr offeiriad y dagrau yn hidl. "Jaques," ebe fe mewn teimladau cyffrous iawn, "gadewch i mi glywed eich cyffesiad." Ac wedi i'r claf orphen, meddai'r offeiriad drachefn, "fel cenad y nef yr wyf yn eich gollwng, yn ei enw Ef sydd yn maddeu y gwir edifeiriol? Ac nid yn unig hyny; er ei fwyn Ef yr wyf yn maddeu i chwi, llofruddiwr fy nhad, a fy mam, a'm dwy chwaer." Cymmerodd cryndod yr hen ddyn, gwnaeth gais i lefaru, syrthiodd yn ol ar ei wely. Dynesodd yr offeiriad ato, yr oedd wedi marw!

Mae yr hanesyn yma yn rhoi i ni enghraifft nerthol a tharawiadol o'r modd mae pechod yn dwyn cosp ar ei ol. Nis gallwn ddianc y gosp ddyledus i'r drosedd ar ddeddfau Duw. Gallwn ddianc o bossibl, frawdlysoedd daearol, gallwn ddianc y carchar a'r grogbren feallai—ond dim byth yr adgno cydwybod a'r hunan-iselhad sydd yn canlyn pechod.

Yr ydym yn wastad yn sefyll gerbron gorsedd barn Duw, ac yn derbyn y gosp yn gymhesur a'n ffolineb. Mae yr Abbe, yr amddifad truan hwnw (ac etto pwy o honom na ddewisai le yr Abbe, yn hytrach na lle yr un a'i gwnaeth yn amddifad), wrth faddeu i'r adyn gwael yn enghraifft ardderchog a phrydferth o allu Cristionogaeth. Wedi ei wisgo ag yspryd ei Feistr Dwyfol, yr hwn a faddeuodd i'r rhai oeddynt yn ei osod i farwolaeth, mae'n dyfod yn mlaen yn enw Crist, ac yn llefaru geiriau o faddeuant iddo ef oedd wedi llofruddio pedwar o'i gyfeillion agosaf ac anwylaf. Boed yspryd felly, gyfeillion, yn eiddo i ninau hefyd.

C. F.

YR ALLTUD AT EI FERCH.

Fy anwyl ferch, dy dad sydd bell—sydd bell oddiwrthyt ti;
Mae adgof am dy lygaid llon yn rhwygo'm calon I,
Dy ganaid liw a'th nosaidd wallt, a'th ddyfyr chwareu bach;
Dy weled megys cynt a wnai fy nghalon glaf yn iach.

Bu'r ymwahaniad imi'n glwy' a lyna hyd fy medd;
Y byd a'i barch roddaswn I am olwg ar dy wedd;
Goleuni dydd a drodd yn nos, paradwys aeth yn erch,
A phob dedwyddwch flodd i ffwrdd pan gollais di, fy merch.

Breuddwydio byddaf yn y nos dy weled megys cynt,
Yn llaw dy fam yn rhodio'r fron yn ddyfyr iawn eich hynt;
Ond Siomiant gyda'r wawr a ddaw, nes gwaedu'm calon wan,
Wrth feddwl nad oes gobaith mwy am weled Mary Ann.

Pe ba'it yn glaf, ni chawswn I ddim dal dy ben i'r lan,
Na rhoddi cusan ar dy fin, fy anwyl Fary Ann;
A phe mewn bedd y rhoddid di yn ieuanc yn dy arch,
Ni chawsai'th dad—O! caled yw!—dd'od yno i ddangos parch.

Mae'm dagrau'n llosgi megys tân wrth dreiglo dros fy ngrudd,
A'm gwaed yn berwi fel y môr yn fy ngwythienau cudd;
O! Dduw, pa hyd y pery hyn i'r alltud drwg ei liw?
Ai hyd y bedd? O! attal Di'r Dwyreinwynt garw 'i ryw.

Yn iach, fy merch! mae'th *ddelw di* yn gyflawn dan fy mron,
Llaw cariad fu'n ei cherfio hi ar lech y galon hon;
Yn iach! ffarwel! cyflwynaf di i ofal Duw y nen,
Gan gryf obeithio cwrdd yn nghyd yn y Gaersalem wen.

D. Byron Lewis.

GWEDDI.

Y MAE'R gair gweddi, yn ol Dr. Beard, yn dynodi dymuniad dystaw, erfyniad, neu addnned. Yn yr ystyr olaf, y mae Iolo Morganwg yn arfer y gair yn ei Salm, ar weddi ein Harglwydd Iesu Grist, fel hyn :—

> "Ein Tad o'r nef, ein Dwyfol Ri',
> Pob enaid byw rhoed fawl i ti."

Gweddi yw gwir awydd yr enaid dynol yn cael ei ddangos neu ei amlygu naill ai mewn teimladau crefyddus, neu eiriau diolchgar—yr arddangosiad o dân nefol yn yr enaid, yr hwn sydd yn ei wresogi, ac yn ei lanw o ddymuniadau cynhes dibaid i feddu ragoriaeth moesol neu ysprydol uwch, *uwch* o hyd. Cydnabyddiaeth ddiolchgar yw o deimlad o ymddybyniad ar Dduw—mai ynddo Ef ydym yn byw, yn symmud, ac yn bod. Hiraeth am gymmundeb ysprydol â'r Tad Nefol yw, a'r teimlad gwresog am yr angenrheidrwydd o'r cyfryw, i'n dwyn ni, ei blant, i undeb Ysprydol ag Ef. Y mae yn gyfystyr â chymdeithas felus ddirgel a chyhoeddus gyda Duw, yr hon sydd yn achosi y caulyniadau mwyaf dymunol, hapus a nefol yn yr enaid dynol, teimlad o ddiolchgarwch, llawenydd, a gorfoledd, yr hyn sydd yn anwahanol gyssylltiedig â'r fath gymdeithas.

Y patrwn sydd yn cael ei osod o'n blaen yn y Testament Newydd i'w efelychu Ef yn y cyflawniad o'r ddyledswydd gyssegredig a phwysicaf hon, yw Iesu Grist, ein Blaenor Mawr a'n Harweinydd at y Tad. Dywed Ef wrth ei ganlynwyr yn ei ddydd, a phawb o honynt oddiar hyny hyd yn bresenol, pa fodd y maent i gyflawnu hyn o orchwyl mewn modd derbyniol gan Dduw, ac yn y fath fodd ag y byddont hwy i gael eu gwneyd yn un ag Ef o ran eu hanian, eu dymuniadau, a'u hamcanion. "Am hyny, gweddiwch chwi fel hyn. Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw. Deled dy deyrnas. Gwneler dy ewyllys, megys yn y nef, felly ar ddaear hefyd."

Yn awr, golygwn ni fod teyrnas Dduw, teyrnas nefoedd, a theyrnas, neu deyrnasiad Crist, yn ymadroddion cyfystyr. Y mae y weddi yma, gan hyny, yn gosod allan hiraeth a dymuniad yr Iesu i deyrnasiad gwirionedd, a'i grefydd Ef, yn y purdeb o honi, i fod yn ffuddugoliaethus dros y byd. Yn ein gwaith, modd bynag, yn adrodd Gweddi yr Arglwydd, dylem fod yn ofalus na byddo yr arferiad hwnw yn ein gwneyd megys yn ddall ac anystyriol o'i gwir ystyr, ac yn annheimladwy o'i phwysigrwydd; oblegyd os ydym felly, y mae yr adroddiad o honi yn dyfod yn ffurf wag a diystyr, ac yr ydym yn agored i syrthio i'r cyfeiliornad hwnw y mae Crist yn rhoddi pob anogaeth i'w ganlynwyr i fod ar eu gwyliadwriaeth neillduol yn ei erbyn. Ni ddylem, ar un cyfrif, feddwl fod y Tad Nefol yn dysgwyl ar, ac yn gymmaint yn cymmeradwyo y geiriau mae ei blant yn eu hadrodd pan yn gweddio arno, a'r teimladau a'r dymuniadau y maent yn eu magu a'u meithrin yn eu calonau. Y mae Duw yn caru gonestrwydd, diragrithrwydd, a

geirwiredd, ac y mae yn fwy boddlongar ar, ac hoff o'r cyfryw, nag o'r geiriau mwyaf swynol a doniol, uchel ac areithyddol, a draddodwyd erioed gan yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid.

Nid yw gweddi geiriau yn cyfiawnhau ac yn nefoleiddio neb, yn fwy na'r Pharisead hunangyfiawn. "Dau wr," medd yr hanes Efengylaidd, "a aeth i fyny i'r deml i weddio; un yn Pharisead, a'r llall yn Bublican. Y Pharisead o'i sefyll a weddiodd rhyngddo ac Ef ei hun, fel hyn: O Dduw, yr wyf yn diolch i ti nad wyf fi fel y mae dynion ereill, yn drawsion, yn annghyfiawn, yn odinebwyr; neu y Publican hwn chwaith. Yr wyf yn ymprydio ddwy waith yn yr wythnos; yr wyf yn degymu cymmaint oll ag a feddaf. A'r Publican, gan sefyll o hirbell, ni fynai gymmaint a chodi ei olygon tua'r nef; eithr efe a gurodd ei ddwyfron, gan ddywedyd, O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi, bechadur. Dywedaf i chwi, aeth hwn i waered i'w dŷ wedi ei gyfiawnhau yn fwy na'r llall." Y mae y blaenaf yn ymffrostio yn ei gyflawniadau allanol, tra y mae yr olaf yn teimlo oblegyd ei bechod, ac oddiar y teimlad hwnw, yn erfyn am drugaredd, ac, yn ddiau, yn ei gael. Ni fuasai efe yn anturio dyfod yn agos at ddyn a ymddangosai gymmaint yn fwy cyfiawn, neu yn annghymharol fwy crefyddol nag ef. Yr oedd ei eiriau yn fyr, ond yn bwrpasol a theimladol, ac y mae ei waith yn sefydlu ei lygaid ar y llawr, ac yn curo ei ddwyfron, yn gosod allan, mewn modd amlwg iawn, ostyngeiddrwydd ei feddwl, a'r edifeirwch dwys a deimlai am ei droseddiadau; ac felly, yn cadarnhau y dywediad hwnw o eiddo yr Iesu, "A phwy bynag a ddyrchafo ei hun a ddarostyngir; a phwy bynag a'i gostyngo ei hun, a ddyrchefir." Dylem gofio, bob amser, fod gwir ddduwioldeb a defosiwn, neu grefyddolder, yn cynnwys, ac yn golygu rhywbeth rhagor na gweddi geiriau ffurfiol, arwynebol, ac allanol. Y mae yn waith rhy bwysig a chyssegredig i gellwair ag ef.

Peth arall, y mae gwir weddi yn beth effeithiol iawn i beru i ni fod yn foddlon i'r hyn sydd genym, ac i ymdawelu dan alluog law Duw pan y mae yr awelon croes yn chwythu yn ein herbyn, fel y gwnaeth i'r Athraw Mawr, pan oedd ar roddi i fyny i anobaith, neu pan ddywedai, "Fy Nhad, os yw bossibl, aed y cwppan hwn heibio oddiwrthyf; etto, nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti." O! y fath deimlad dwys, a'r fath ddifrifoldeb meddwl sydd yn dyfod i'r amlwg yn y geiriau yma. Y mae ein Hiachawdwr yn bwrw ei hun i lawr mewn gweddi, ac yn nghanol ei deimladau terfysglyd, yn gweddio yn daer am i'r dyngled alarus feddyliai oedd ar syrthio i'w ran i gael ei hattal, os oedd hyny yn unol ag amcanion ei Dduw; ond os nad oedd felly, boddlon oedd ef i ymostwng yn dawel i'w ewyllys Ef, dan y grediniaeth ffyddiog a diysgog y buasai yn gwneyd yr hyn oedd oreu iddo. "Etto, nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti."

Gwelwn yma nerth a dylanwad gweddi, yn yr amgylchiadau caled dan sylw, yn dyfod i'r golwg yn amlwg iawn. Felly, hefyd, y mae y gwaith o weddio Duw wedi profi ei hun yn foddion i gadarnhau penderfyniadau da, a gwroli miloedd lawer o'n cydgreaduriaid cyn yn awr, a'u nerthu i fyned rhag eu blaen ar hyd llwybr dyledswydd, yn gorch-

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

YR

YMOFYNYDD:

CYHOEDDIAD MISOL AT WASANAETH

UNDODIAID CYMRU.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD—CYFROL X.—1885.

ABERDAR:
JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, COMMERCIAL PLACE.

1885.

AT EIN DARLLENWYR.

Dyma ni wedi dyfod at derfyn blwyddyn arall o'r Ymofynydd, a beth gawn ni ddywedyd am dano? Nid yw wiw i ni, feallai, ddywedyd llawer; ond hyn a ddywedwn, iddo fod y goreu y gallem o dan yr amgylchiadau. Er nad yw ein cyhoeddiad ond bychan, y mae yn fynych yn ein gosod ar ein heithaf i'w gael rywle yn agos i'r peth carem iddo fod. Y mae genym i ddiolch am lawer o help gwerthfawr, yn ystod y flwyddyn, oddiwrth ohebwyr a dosparthwyr, a derbynwyr, ac yr ydym yn cyflwyno diolch calon iddynt oll; ac, ar yr un pryd, yr ydym yn taer ddymuno am barhad o gyffelyb garedigrwydd oddiar eu llaw etto yn y dyfodol. Gwaith i'r cyhoedd yw, a gwaith cariad yw y gwaith da. Credwn fod y gyfres o brif lithiau wedi bod, ar y cyfan, yn dderbyniol iawn, a charem gael ein galluogi, trwy garedigrwydd brodyr hynaws, i barhau'r cynllun dros y flwyddyn nesaf. Eisieu gwirfoddolwyr sydd arnom, i ymgymmeryd â'r gorchwyl. Ceir awgrymiadau ar dudalen arall. Pwy sydd yn barod i ymosod ar destyn, ac ysgrifenu arno? Dewch, gyfeillion, peidiwch aros i'ch cymhell. Mae pynciau ereill ddigon, a phynciau dyddorol ac adeiladol, ac y mae genym ysgrifenwyr ieuainc galluog, pe gallem ond eu darbwyllo i fwrw eu cotiau i lawr, ac ymaflyd yn y gwaith. Carem yn fawr, pe gallem dalu am ein gohebiaethau, a phe gallem ond chwyddo ein cylchrediad i ddeg cymmaint ag yw, byddai genym le i obeithio gwneuthur rhywbeth. Yn y cyfamser, nid oes genym ond taer ddeisyf ar bawb am help i wella ei gynnwysiad, ac i gynnyddu ei gylchrediad. Gwyddom nad yw y peth y dylai, na'r peth y gallai fod, yn y naill gyfeiriad na'r llall; ond ar y cyfan, credwn ei fod yn ateb gwasanaeth da i achos gwirionedd a rhyddymofyniad yn Nghymru. Y mae amryw barthau ag y dysgwyliem i'r Ymofynydd gael derbyniad ynddynt nad oes genym yno yn awr un dosparthwr. A oes dim cyfeillion yn Mountain Ash, Blaenllechau, Castellnedd, &c., yn teimlo digon o ddyddordeb yn yr achos da ag i ymgymmeryd i wneuthur eu rhan i lanw y diffyg hwn? Nid oes yr un cyfnodolyn arall a all gyflawnu gwaith yr Ymofynydd. Deuwch, gyfeillion, dangoswch eich hochr. Daliwch i fyny faner eich hegwyddorion, fel y galloch roddi ateb da yn y dyfodol am eich gwaith yn y gorphenol. A Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

CYNNWYSIAD.

Aberystwyth, Y Brif Ysgol... 47, 182
Abou Ben Adhem 83
Adolygiad 6, 43
Addysg yr Apostolion 142
Aelodau Eglwysig..... 92
Agoriad byr ar Weddi'r Arglwydd.. 280
Ail Enedigaeth 169
Amynedd..... 179
Anerchiad 1
Annghrediniaeth 13
Anwareidd-dra 47
Mrs. M. a W. J. 20, 37
Bartholomeus, Gwyl..... 260
Bedydd a Buchfrechiad 42
Beibl Diwygiedig (1885) .. 134, 177, 207
„ a'r Oes (pregeth W. T.)..... 49
Brain Beiddgar 213
Brwydr Hirwaun Wrgant 112
Brwydro â'r Ystorm 210
Buwch yn dysgu Duwinyddiaeth .. 269
Calon o Garreg 124
Cefncoed 117, 255
Cenadwri Undodiaeth 137, 250
Charles o'r Bala..... 153, 159
Clarke, Dr. James Freeman .. 102, 179
Chwedloniaeth Gymreig 40
Credoau 2, 111, 201, 205
Crefydd Ymarferol 177
„ yn Ewrop 179
„ Cymru cyn Charles o'r Bala 202
Cristadelphiaeth..... 6
Cristion, ei Lawenydd 56
Cristionogaeth a Dyn 225
Cwymp Sennacherib..... 102
Cyfarfodydd Chwarterol 38,108,175,245,
Cyfeillach a Gweddi..... 15
Cymmanfa Birmingham .. 96, 115, 129
Cymmanfa'r Meddygon 197
Cymmod 193
Cynghorion i'r Ieuainc..... 195
D.D., Castell Hywel.. 139, 162, 208, 235
Darby a Joan 162
Deddfwriaeth Ryddfrydig 110
Dirwest a'r Eglwys 87
Diwedd Blwyddyn 12
Duw, ei geisio 25
Duwinyddiaeth Newydd a Hen 91
Dyddiadur T. Davies, Caeronen .. 209, 235,261,276
Dyn 265
Eglwys, Yr 121
Emynau Gee, Llyfr 43
Emyn T. J. Griffiths ar Ddiwedd Blwyddyn 12
Evans, Y Parch. D., B.A. 138
Ffydd yr Eglwys Gyffredinol 205
Gair i'r Merched 183
God is no-w-here 20
Gog, Y..... 94,164
Goleu a deimlir, Y..... 59
Gwaith a Gweddi 214
Gweddi 158, 273
Gweledigaeth 17
Gwelliant Gwallau 22
Gwraig Rinweddol..... 238
Hanesion (gwel Manion)
Hen Aelwyd fy Nhad..... 200
Hen Fran 262
Iachawdwriaeth 145
Iawn, Yr 217
Iesu Grist 73
Iolo Morganwg 93,141
John Jones yn yr Ysgol..... 39
Llawnfor y Flwyddyn 152
Lloyd, y Parch. D., (Llwyn)..... 256
Maddeuant 270
Manion a Hanesion..21,45,70,95,118,142, 166,214,238,262,282
Mari a'i mam.....68,90
Marwgofion 23,47,71,96,120,143,167,216, 239,263,283
Marwolaeth Arthur 276
Meddwdod 136, 183
Morgan, Mrs. Gwen 141
Nefoedd, Cael..... 29
Nefoedd ac Uffern..... 241
Nodynau Gwasgarog ..19,42,92,117,139, 166,183,207,232,257,277
O lan y Dwr 236
Ordinasiwn John Leland..... 60
Pa beth a fwytawn..... 198
„ yfwn 198
Paganiaeth 166
Pantycreuddyn 207
Pechod.....62,79,145
Pegy Williams 238
Pentrefi uwch y llynoedd..... 41
Plentyn yn marw, Y 244
Poenau Tragwyddol 21
Post am y Flwyddyn 228
Pregeth Mr. Manning 25,246
„ y Parch. W. Thomas 49,156,185
„ y Parch. J. Ll. Jones 62,79
„ Dr. Channing 46
Priodasau 23,96,120,143,167,215,283
Rhyfel 84
Sylfaen Cred 233
Toriaeth a Rhyddfrydiaeth 229
Troedigaeth..... 169
Undodiaid 20,111,137,172
Universaliaid, eu Ffydd 205
Wedi ei demtio fel ninau..... 212
Ymrwymiad Eglwysig (Cerdyn)..... 140
Ymryson am Ddim 253
Yr Alltud at ei ferch 272
Yr Elfen Ddyfrol 199
Yr Ymgnawdoliad 263
Yr Ysgol Sul 140,159
Yr Yspryd Glân 62,79,97
Ysprydion Aflan (Pregeth) 156,185

fygu, ac i orchfygu ar bob anhawsderau, gwawd a dirmyg y byd, a chael eu perffeithio trwy y pethau ydynt wedi eu dyoddef, ac felly, wedi cael eu gwneyd yn fwy na chonciwerwyr trwy yr hwn a'u carodd. Os ydym ninau am effeithio rhyw gymmaint o ddaioni yn y byd yma, cofiwn y gallwn wneyd hyny yn llawer mwy effeithiol trwy ddal cymmundeb â'r Tad Nefol mewn gweddi, a cheisio yn ddyfal am ei nerth a'i gyfarwyddyd i gyflawnu ein gwahanol ddyledswyddau pwysig, fel y gweddai i'r sawl alwn ein hunain yn ddysgyblion Crist, gan gofio mai yr hwn sydd yn gofyn sydd yn derbyn, ac mai yr hwn sydd yn ceisio sydd yn cael.

Nid yw gofod yn caniatau i ni sylwi rhagor ar y pwys mawr osodir ar y ddyledswydd gyssegredig yn y Gair Dwyfol, a'r annogaethau a'r cymhelliadau taerion ydynt yn cael eu gosod o'n blaen i ymarfer â hi. Ond y mae un peth etto y carem wneyd sylw neu ddau arno cyn gosod ein hysgrifell i lawr. *Meddyliwn nad oes yr un dyn rhesymol ac ystyriol yn credu y gall efe, wrth ddyrchafu ei lef i'r nefoedd, at yr Hollalluog a'r Hollbresenol Dduw, roddi neu drosglwyddo yr un wybodaeth newydd iddo Ef, nac achosi y cysgod lleiaf o droedigaeth ynddo Ef, nac yn un o fesurau ei lywodraeth. Ni all, efallai, ond y mwyaf anwybodus ddychymygu y gall, trwy ei weddiau, ddylanwadu arno Ef i gyfnewid yr un o'i fwriadau a'i gynlluniau tragwyddol; ond y ffaith yw, fod effeithiolrwydd gweddi yn achosi cyfnewidiad pwysig er gwell arnom ac ynom ni ein hunain, trwy greu egwyddorion a thueddiadau iawn yn y galon, ac felly, yn ein gwneyd ni yn fwy tebyg i Dduw mewn cariad a phob daioni. Nid ar gyfrif ein bod ni yn gofyn, y mae Duw yn caniatau ein herfyniadau mewn gweddi, ond y mae ein gwaith ni yn gofyn am y cyfryw, mewn tymher dda, yn peru yr agwedd meddwl hono sydd yn ein cymhwyso i'w mwynhau gyda diolchgarwch. Yn herwydd hyny, y mae gweddi wedi ei hamcanu a'i phennodi gan Dduw fel offeryn i wella a nefoli ein natur, ac y mae yn ofynol, o'n tu ni, fel ammod derbyniad diolchgar ei fendithion Ef.

A oes yr un dyn ystyriol a ddywed nad yw yn ddyledus ar greaduriaid rhesymol i deimlo eu hymddybyniad ar Dduw, yr hwn a'u gwnaeth, ac i gyfeirio ato Ef o gwbl am yr holl fendithion ydym yn fwynhau, ac a obeithiwn eu derbyn etto? Oni fyddai amddifadrwydd o'r fath syniadau gweddus yn hollol annheilwng ac yn bechadurus mewn bod meidrol? . . . . . .

Ond, mewn gwirionedd, nid oes achos dadleu y pwnc yma yn awr. Ymddengys i ni na all dim fod yn fwy naturiol a gweddus nâ bod dyn, fel creadur ymddybynol cyfangwbl ar Dduw, yn gweddio arno, a dychwelyd ei ddiolchgarwch iddo am bob rhodd ddaionus a phob dawn berffaith.

Trwy yr oesau, ac yn mhlith pob cenedl o ddynion, gan nad beth fyddo eu sefyllfa a'u hamgylchiadau mewn bywyd, y mae y rhwymedigaeth o'u dyledswydd i weddio Duw wedi cael ei chydnabod, ac y mae

---

*Gwel Blair.

y priodoldeb o honi wedi cael ei deimlo. Dros yr holl fyd, hyd y nod yn mhlith y trigolion mwyaf anwaraidd, y mae temlau wedi cael eu hadeiladu, y mae addolwyr wedi ymgasglu iddynt, ac felly, yn credu fod Duw yn wrandawr gweddi.

Bydded i ti a minau, gyfaill, gael ein symbylu fwy-fwy o hyd i addoli yr Arglwydd Dduw yn mhrydferthwch sancteiddrwydd, neu mewn yspryd a gwirionedd, fel y byddom yn mwynhau y cyssur a'r nefoedd sydd anwahanol gyssylltiedig â gwneyd felly.

E. W. Lloyd.

MARWOLAETH ARTHUR.

O'r gwch yn araf Arthur dd'wedai hyn:—
" Cyfnewid wna'r hen drefn, un newydd ddaw,
A Duw gyflawna 'i hun mewn llawer modd,
Rhag bod un ddefod dda yn llygru'r byd.
Cyssura d' hun; pa gyssur ynof fi?
'Rwyf wedi byw, a'r hyn wyf wedi wneyd
Gwnaed Ef o'i fewn ei Hun yn bur! Ond ti,
Os na chai wel'd fy wyneb I byth mwy,
Gweddia droswyf. Gwneir trwy weddi fwy
Nag mae'r byd hwn yn feddwl. Gad i'th lais
Fel ffynnon godi droswyf ddydd a nos.
Beth gwell yw dyn nâ'r hydd, yr oen, neu'r myn,
Feithrina yn ei 'mhenydd fywyd dall,
Os, heb adnabod Duw, ni ddyrcha law
Mewn gweddi dros ei hunan a'i holl gâr?
Mae'r holl fyd crwn, yn mhob rhyw fodd,
Wrth gadwen aur yn rhwym gylch traed ein Duw.
Ond 'nawr, ffarwel! 'Rwy'n cychwyn ar daith bell
Yn nghwmni y rhai hyn—os myned wnaf—
I ynys-ddyffryn teg Afallon draw,
Lle na chwymp cenllysg, gwlaw, nac eira byth,
Lle na chwyth gwynt yn uchel; ond y mae
Mewn dyffryn dwfn a dedwydd, a pherllanau teg,
Adeildai coronedig morawl haf,
Lle caf iachad im' tost a phruddaidd glwyf.

—*Tennyson.*

Y RHUBAN GLAS.

Y dillynaidd nôd allanol—a fedd
Y fyddin ddirwestol
Yw'r Rhuban Glâs pwrpasol,—er dangos
Y dewr sy'n aros ar dir synwyrol.—*J. E.*

NODYNAU GWASGAROG.

DYDDIADUR Y PARCH. T. DAVIES, CAERONEN.

(Parhad o tud. 261.*)*

1752.—Dechreuodd y flwyddyn Ionawr 1af.
Chwefror 7, John, mab y Parch. Owen Davies, Llancrwys.
Mawrth 7, David Moses Thos. Wm., plwyf Llanbedr.
Mai 17, Margarett Wm. Jenkin, Llanarth, yn Ciliau.
Awst 28, David, mab John David, Tanner, Cellan.
Medi 23, (N. St.) Elizabeth, m. David Evan, Tanner, Cellan.
Hydref 5, Mary, m. Willm. Thos., Felindre, Pencareg.
Rhag. 6, Mary Dd. Evan, Gwehydd, Cellan.
Ebrill 13, John, mab John David Lodwick, Llwynicir, Llanfair.
26, David, mab Abel Evan, Caeronen, Cellan.
Mai 25, Evan, mab John ——, Llettytwbba, Llanbedr.
Hyd. 10,—53, Mary Evn. John Morgan, Pentre Llanfair.
"Old Mics Day," 11, Jemima Anthony, Lanlas, Cellan.

1754
Ionawr 16, Martha John Dd., Ty'nygors, Pencareg.
Gorph. 6, David Lewis Jenkin, Hathren, Pencareg.
Awst 24, David, mab Richard Lloyd, Cellan.
Medi 30, Jn. Jenkin Davies, Llanbedr,
Tach. 30, Sarah Dd. Jenkin, Cellan.
Rhag. 7, David Samuel, Llettytwbba, Llanbedr.

1755
Chwef. Thos. Evan Morgan, Cellan.
Margt. Jn. Wm. Evn., Llancrwys.
Mawrth 18, Dd. Evn. Dd. Evn, Cellan.

1756
Medi , Elizabeth Lewis Price, Llancrwys.
18, Gwenllian Dd. Evan, Gwehydd, Cellan.
19, Mary Evan Thos. Morgan, Pencareg.
29, David Thos. Rees, Coedmor, Pencarreg.
Hydr. 2, Jane David Anthony, Bryncoch, Cellan.

1759
Ebrill 28, Thos. David Anthony, Blaenau, Cellan.
Mary Rees Evan, Cilgell, yn Pencareg, a fedyddiwyd Mehefin 14, 1762, y bore hwnw, bu farw ei mam, ac a gladdwyd ar yr 16eg, yn Pencareg. Mrs. Pugh o Goedmor a fu farw Mehefin 11, 1762, ac a gladdwyd ar y 14eg yn Pencareg. "G. pre. m. to f—w Am."

Medi 10, 1766, Mary, merch John Davies, Blaenwaun, Llanfair, a fedyddiwyd genyf fi 7br., 10, 1766.
Rhag. 16, Jenkin, mab David Jenkin Rees, Cellan.

Chwefror 17, 1767, Esther, merch David Davies, Blaenrhoca.
Ebrill 17, 1770, John, mab David Morgan, Pentre John.
Peter Davies a gladdwyd yn Llanbadarn Odwyn Medi 2, 1766.
Yr oedd John ei fab yn 18 mlwydd oed, Hydref 27n.

[Y Parch. T. Davies, a fu farw Medi 30, 1771, yn 60 oed, ac a gladdwyd yn Nghellan.—Gol.]

Yr ydym yn cael fod y priodoliad o nodweddion dynol i'r Duwdod yn creu anhawsder yn meddyliau rhai o'n pobl ieuainc. Braich yr Arglwydd, llygad Duw, bys Duw, myn rhai eu cymmeryd yn llythyrenol, ond yn gamsyniol iawn. Fe ddefnyddir yr ymadroddion yma yn gymhariaethol yn unig. Yspryd yw Duw, ac nis gallwn dybied fod i yspryd aelodau fel sydd gan ddyn. Gwaith anhawdd i ni, o herwydd ein anmherffeithrwydd, feddwl am Dduw oddieithr trwy gyfryngau daearol a gweledig. Ein tuedd o hyd yw ei wneuthur yn debyg i ni ein hunain. Ac o'r braidd y *gallwn* ni ochelyd defnyddio y gweledig i geisio egluro yr anweledig.

Y mae offeiriad o'r enw Whitworth yn nodi rhai pethau hynod yn almanac y flwyddyn nesaf. Bydd Pasg 1886 ar ddydd St. Marc, Ebrill y 25ain—y dydd diweddaf y mae yn bossibl iddo fod. Y tro diweddaf y bu ar y dydd hwnw oedd yn 1796 (O.S.), a'r tro nesaf fydd 1946. Yn ol yr hen gyfrif, yr hwn oedd yn rhoi 100 blwyddyn naid mewn pedwar canrif, yr oedd y Pasg yn syrthio ar ddydd St. Marc bedair gwaith mewn 532 o flynyddau, fel hyn:—95, 95, 95, 247. Aeth yr hen gyfrif allan o arferiad gyda ni yn 1752, a daeth y calendar Gregoraidd i arferiad yn lle yr un Julian, a cheir yn awr 97 blwyddyn naid mewn pedwar canrif. Dyma'r blynyddau y mae Pasg yn dygwydd ar Ebrill y 25ain (cyfrif newydd):—1666, 1734, 1886, 1943, 2038, 2190, 2258, 2326, 2410, 2573, 2630, 2782, 2877, 2945, 3002, 3097, 3154, 3249, 3306, 3469, 3537, 3621, 3784, 3993, 4088, 4156, 4224, 4376, 4528, 4680, 4723, 4900. 5120, 6483, 6771, 6855, &c. Pan fo'r Pasg yn dygwydd felly, mae Sulgwyn ar Wyl St. Antwn o Padua, a dydd Corpus Christi ar Wyl St. Ioan Fedyddiwr, a chawn hen broffwydoliaeth a briodolir i St. Bridget, a gair yn argraffedig ar garreg mewn eglwys ger Treves. Pan ddaw Marc a'r Pasg i ni, fe gana Antwn folydd y Pentecost, ac arogldartha Ioan y Cymmun Bendigaid ar Wyl y Corpus Christi, ac yna'r byd a adseinia gan alar a gofid.

Yn yr *Expositor*, cyhoeddiad misol a gyhoeddir yn Lloegr, yr ydys yn ddiweddar wedi bod yn cynnal *Symposium*, yn yr hwn y mae cynnrychiolwyr o'r gwahanol enwadau wedi bod yn gosod allan seiliau eu ffydd mewn anfarwoldeb. Yr oeddynt oll yn dal y ffaith o anfarwoldeb yn

gadarn iawn, y Pabydd a'r Eglwyswr, yr Annybynwr a'r Bedyddiwr, a'r Undodwr, ac y mae hyny ynddo ei hun, debygwn, yn awgrymiadol iawn o wirionedd y gred. Nid yr un rhesymau oedd ganddynt i gyd, canys nid yr un rhesymau sydd yn tycio gyda phawb; ond pa achos ymddadleu, os wedi cyrhaedd argyhoeddiad? A yw cred mewn anfarwoldeb yn dda ynddo ei hun ai nad yw? Credwn hyny i gyd, ac os yw, paham yr awn i geisio gwanychu ffydd neb? Onid yw yn fwy naturiol i ni geisio yn hytrach ategu ffydd y naill y llall? Mae amryw o'r brodyr dan sylw yn treulio llawer o'u gofod i ddangos gwendid seiliau ffydd ereill, yn lle ceisio eu goreu i osod allan yn fwy nerthol yr hyn yw eu ffydd eu hunain, fel pe byddent yn anfoddlawn i ereill gredu mewn anfarwoldeb, oddieithr iddynt wneuthur hyny am yr un rhesymau ag y gwnant hwy. Nid y peth pwysig yw trwy ba borth y daethom i fewn i Gaersalem, ond ein bod wedi dyfod i fewn o gwbl, ac fe wyr pawb, neu hwy ddylent wybod, fod rhagor nag un porth yn arwain tuag yno.

Yr ydym yn cofio clywed Dr. Crosskey, tua 25 mlynedd yn ol, yn pregethu ar ddaeareg, ac yn nodi allan y goleuni oedd yn daflu ar ddull y cread—y modd yr oedd haenau'r ddaear yn dangos un do yn cael ei ganlyn gan do arall o greaduriaid, yr olaf yn fwy perffaith a chyflawn, a chymhlethedig na'r blaenaf, nes dyfod o'r diwedd (ar ol treigliad amser sydd feallai tuhwnt i ddychymyg dyn, i Dduw nid oes mesur amser, iddo Ef y mae un dydd megys mil o flynyddoedd, a mil o flynyddoedd megys un dydd) at ddyn, y cyntaf o'r holl greaduriaid i ddangos cywilydd trwy wridgochi gwynebpryd, i ddangos y meddiant o gydwybod, a rheswm, a deall; a fyddai'n debyg y buasai'r Tad Mawr, ar ol treulio cymmaint o amser i berffeithio ei gynllun, wedi'r cwbl ddyddimu'r cynllun hwnw trwy droi dyn i ddinystr? Nid yw hyny, o leiaf, yn ymddangos yn gysson â'r hyn yw doethineb mewn dyn. Dyna yw *contribution* Daeareg tuag at y ffydd mewn anfarwoldeb.

Gautama Bwda yw y proffwyd mawr yn mhlith yr Indiaid; yr oedd yn byw tua 600 mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol. Mae ei ddysgyblion yn rhifo mwy nag un rhan o dair o boblogaeth y byd—rhyw 500 miliwn. Mae ei eglwysi yn lluosog, a thelir iddo addoliad. Ystyrir y ffaith olaf yn rhyfedd gan Gristionogion ein gwlad ni. Ond paham felly? Mae yn hollol gysson â thuedd gyffredin a gawn ni mewn dynion i geisio gwrthddrych gweledig i'w haddoliad, ac yn gwbl mor naturiol ag addoliad Iesu Grist gan Gristionogion. Os yw yn rhesymol i Gristionogion addoli Crist, beth sydd yn afresymol yn y Bwdistiaid yn addoli Gautama, y gwrthddrych gweledig goreu ac ardderchocaf y gwyddant hwy am dano? Deallwn fod y diweddar Ddeon Westminster wedi dywedyd na wyddai efe am neb yn fwy teilwng i'w osod yn ail i Iesu Grist na Gautama. Byddai yn ddyddorol cael gwybod pa

reswm ellir ei roddi dros addoli un yn fwy na'r llall. Os na allwn ni ymfoddloni ar un gwrthddrych addoliad—yr un hwnw yr addolai yr Iesu ei hunan, ac y dysgodd ei ddysgyblion i'w addoli—nid wyf yn gallu gweled un rheswm dros stopio gyda thri, na chyda thri chant.

AGORIAD BYR AR WEDDI'R ARGLWYDD.

Ein TAD.
Trwy gyfiawnder Creadigaeth,
Trwy Haeddiant Prynedigaeth ?
Trwy rasol Ragluniaeth.

Yr hwn wyt yn y Nefoedd,
Preswylfa dy Fawredd,
Etifeddiaeth dy Blant,
Teyrnas y Fendith.

Sacteiddier dy Enw,
Ym Meddyliau'n Calonnau,
Yng Eiriau ein Geneuau,
Yng Weithredoedd ein Dwylaw.

Deued dy deyrnas,
O ras i'n hysprydoliaethu,
O allu i'n hamddiffynu,
O Ogoniant i'n coroni.

Bid dy Ewyllys ar y Ddaear,
Mewn hawddfyd ac adfyd,
Mewn llawnder a diffyg,
Mewn bywyd ac angeu.

Megis y mae yn y Nefoedd,
Ynom ni, fel y mae dy angylion,
Yn ewyllysgar, yn barod, yn ffyddlon,
Yn ddirwgnach, heb dwyll, na rhwystron.

Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol,
Er maeth i'n Cyrph,
Er ymborth i'n Heneidiau,
Er cyflawni ein diffygion.

A maddeu i ni ein Dyledion,
Trwy y rhai y darfu i ni dy ddianrhydeddu di,
Gwneuthur cam a'n cymmydogion,
A'n peryglu' ein hunain.
Fel y maddeuwn ni i'n Dyledwyr,
Y rhai a'n colledodd ni yn ein Dâ,
A'n niweidiodd ni yn ein Cyrph,
A wnaeth gam â ni yn ein Henwau,

Ac nac arwain ni i Brofedigaeth,
Y byd twyllodrus,
Y Cnawd trachwantus,
A'r Cythraul cenfigennus.

Eithr gwared ni rhag Drwg,
Maddeu'r Drwg a aeth heibio,
Tro heibio'r drwg presennol,
Rhagflaena'r Drwg i ddyfod.

Canys eiddot ti yw'r Deyrnas, a'r Nerth a'r Gogoniant,
I lywodraethu a rheoli pob Peth,
I orchymyn a gwneuthur pob Peth,
Ymhob Peth, drwy bob Peth, oll yn oll.

Yn Oes Oesoedd.
Yr Awr hon,
Yn y byd hwn,
Ac yn y Byd a ddaw.

Amen.

Fel y dywedaist, felly y mae,
Fel yr addewaist, felly y bydd,
Ac fel yr y'm yn gweddio,
Arglwydd, poed felly y bo.—*O'r Cylchgrawn*, 1770.

GWRTHRYFEL YN MHLITH Y CURADIAID.

Mae y Curadiaid mewn gwrthryfel. Mae tua 200 o honynt wedi llawnodi papyr o blaid y Dadgyssylltiad, ac yn gosod allan 12 o resymau pam y dylai yr Eglwys gael ei rhyddhau oddiwrth y llywodraeth er mwyn ei dwyn i fwy o gydgordiad a theimlad y bobl. 1. Am fod yr Eglwys yn ymarferol yn *freehold* y person, ac nad oes gan y plwyfolion mewn gwirionedd ddim llais. 2. Fod hyd y nod y rhai a dalant arian *endowment* yn cael ei goruwchreoli gan yr Esgobion, y rhai ydynt yn gosod eu ffryndiau a'u perthynasau i fwynbau'r brasder. 3. Fod yr Eglwysi yn weigion mewn lleoedd gwledig, am fod y personiaid yn methu neu yn pallu ymgyfaddasu eu hunain at y bobl. 4. Fod y Curadiaid sydd a dyfodol o'u blaen, ac heb gael eu "sefydlu" yn fynych yn llwyddo i lanw yr eglwysi, gyda'r canlyniad yn fynych o gael eu troi allan gan rywun y mae yr Esgob yn ei anerch fel ei "dear rector!" 5. Fod y Curad yn gwneuthur y gwaith a'r Rector yn cymmeryd y tal. 6. Nad yw yr Esgobion, y rhai ydynt yn derbyn y taloedd mawr, ac yn aelodau o'r Wladwriaeth, wedi gwneuthur dim o blaid diwygio yr Eglwys. 7. Fod dynion mewn galwadau creiil yn cael eu promoto yn rhinwedd eu cymhwysder, ond yn yr Eglwys yn rhinwedd eu perthynas i'r Esgob neu ryw ddyn mawr yn yr Eglwys. 8. Fod gan y pethau yma effaith rinweddol iawn ar yr Offeiriaid eu hunain. 9. a 10. Fod y gwasanaeth addurniadol yn yr Eglwysi Cadeiriol yn ymddangos yn wrthgyferbyniol os

nad yn wrthun iawn, pan yr ystyriwn ni y tlodi mawr a geir yn fynych yn ymyl yr awdurdodau urddasol yma. 11. Fod yr Eglwys Wladol fel corff yn glynu wrth y llygriadau mawrion, y smotiau duon, er mwyn yr aur. 12. Pe cawsai yr Eglwysi eu dadgyssylltu, byddai y plwyfolion at eu rhyddid i ddewis eu gweinidogion.—Mae yn anhawdd gwybodbeth yn gryfach na hyn allasai y "liberationists," aelodau Cymdeithas Rhyddhad Crefydd, ei ddywedyd. Y mae yn amlwg oddieithr i ryw ddiwygiad mawr gymmeryd lle fod yn rhaid i'r Eglwys Wladol fyned.

Manion a Hanesion.

Cynnaliodd eglwysi Caeronen a Brondeifi eu cyrddau o ddiolchgarwch am y cynauaf ar yr 28ain o Hydref. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

Mae gweddi mor naturiol i galon ddefosiynol ag yw geiriau mwyn neu seiniau tyner i enaid cariadus. Mae crefydd yn farw eisoes mewn calon hunangar. Yr hwn sydd yn gweddio yn unig er mwyn yr hyn a ddichon gael, nid yw yn gweddio o gwbl.

Cyfrifa Prof. Leone Levi fod huriau dosparth gweithiol ein gwlad yn £436,000,000, ac eiddo y dosparth canol a'r uwchaf yn £564,000,000. Traul y blaenaf yn £432 miliwn, a'r ddau olaf £452 miliwn.

Dywedir fod Swedenborgiaeth yn cynnyddu yn gyflym tua Chwmtawe. Un peth rhyfedd mewn Swedenborgiaeth ag y byddai yn rhyfedd genym weled llawer o Gymry yn ei dderbyn yw hyn, yr oedd Swedenborg yn gwrthod holl epistolau Paul, tra mae'n fwy hoff gan y Cymro eiriau Paul na geiriau'r Iesu ei hunan.

'Tis greatly wise to talk with our past hours, and ask them what report they bore to heaven.

Mae Carlyle yn adrodd am un o freninoedd Ffrainc, yr hwn a warafunai i'r gair "Angeu" gael ei adrodd yn ei bresenoldeb.

Cynghor George Stephenson i bobl ieuainc oedd, "Do as I have done, persevere!"

Fe wel wendidau pawb a bai pob un,
Ond yn ei fyw ni wel ei fai ei hun.

Yr wyf yn meddwl y gall dyn gredu yn uffern ac wedi'n fyned i uffern; ac annghredu yn uffern, ac wedi'r cwbl, fyned i'r nefoedd.—*Meredith.*

Meddai hen ddiareb, "Nid yw Duw yn talu ei hur i ddyn bob nos Sadwrn."

Ni wna pum' munyd o siarad orbwyso hanner can' mlynedd o waith oddieithr yn mantol yr Eglwys.—*Parker.*

Os bydd dyoddefaint yn y byd nesaf, bydd megys yn hwn, er meddyginiaeth i'r enaid claf.—*Parker.*

Gall ein gwefusau addoli crefydd, ond rhaid yw i'n bywydau ei addurno.

Darfu i Cromwell dori llwybr iddo ei hunan tuag i fyny â'i gleddyf, a'r cleddyf oedd ei deyrnwialen; y mae Gladstone wedi ei alw i'r ffrynt gan y bobl Brydeinig. Yr olaf yw yr ardderchocaf o'r ddau.—*Christian World*, 1881.

Yn amser y Frenines Mari, yr oedd celwyddau y Pabyddion yn cael eu hystyried gan y Pabyddion yn well na gonestrwydd Protestanaidd.

Yr oedd Carlyle yn arfer dywedyd nad oedd dynion mawrion ddim yn deilliaw oddiwrth ffyliaid.

Os edrychwn ar fywyd fel rhodd o ddyddiau un ar y tro, gallwn gyflawni ei holl ddyledswyddau a dwyn ei holl feichiau.

Ni ddarfu i'r Iesu wneuthur y pechod gwreiddiol yn sylfaen ei dduwinyddiaeth, ond yn hytrach gallu dynol *(human capacity)*.

Dywedodd Aelod Seneddol wrth Carlyle, un tro, ei fod wedi rhoi pleidlais yn groes i'w gydwybod er mwyn boddloni yr etholwyr. Atebodd Carlyle, "Ar ddydd y farn, chwi gaiff eich damnio ac nid yr etholwyr."

Mae yr hwn allo bregethu i'r gydwybod â'i bwlpud yn y nefoedd.

Bydd yr ysgrifen-fedd canlynol yn dderbyniol gan rai. Y gwrthddrych yw mab hynaf y Parch. D. Davis, Castell Hywel, Mae ei fedd yn mynwent capel Heol Awst. yn Nghaerfyrddin:—"In memory of Rev. David Davis (late of Neath), who died

December 4th, 1846, aged 68." Merch iddo ef oedd gwraig gyntaf y diweddar Barch. Owen Evans, Cefncoed.

Mae cyfaill yn awgrymu y pynciau canlynol fel yn deilwng o sylw gan ein gohebwyr yn ystod y flwyddyn nesaf:—1. Y pwlpid. 2. Yr eisteddleoedd. 3. Celu syniadau. 4. I'r addoliad yn brydlawn. 5. Pa fodd cael yr Ysgol Sul yn fwy llwyddiannus. 6. Sylfaen cred mewn anfarwoldeb. 7. Cydraddoldeb crefyddol. 8. Swyddogion yr Eglwys Gristionogol yn ol y Testament Newydd. 9. Bedydd a Swper yr Arglwydd. 10. Rheswm a Dadguddiad. 11. Codwm Eden a'r canlyniadau. 12. Yr Undodiaid a'r YMOFYNYDD. 13. Undodiaid penffordd, penffair, a'r aelwyd gartref.

PRIODASAU.

Tachwedd yr 11eg, yn nghapel Fadfa, gan y Parch. W. James, Evan Thomas, Brynare, ag Elizabeth James, Ffynnonrhys.

Yn nghapel y Bryn, Cwrtnewydd, Ceredigion, gan y Parch. John Davies, ac yn ngwydd y Cofrestrydd, John Jones, Mr. David Thomas, Ty'ngrug Isaf, Llanwenog, a Miss Sarah Jones, Esgerlygoer—y ddau o'r un plwyf.

Priodas dda i Dafydd
Ddymuna yr holl sir,
A'r un mor dda i Sarah,
A hono 'i bara'n hir;
Boed iddynt wir ddedwyddwch,
Heb unrhyw awel groes
I chwythu certh ofidiau,
Tra paro dyddiau 'u hoes.

'Doedd neb am wared Sarah—
'Does neb a wada'r ffaith,
Ond Dafydd wnaeth ei hoffi,
Er mwyn hwylusu'r daith;
Pan flinodd wrtho ei hunan,
Fe wnaeth ddewisiad coeth,
A chanfod wnaeth mai elw
I ddyn yw menyw ddoeth.

Bu hithau'r un mor ffodus
Wrth ddewis cydmar call,
Mae pob peth yn cydgordio—
Mae'r naill yn taro'r llall;
Y Miss fel hyn ddiflana,
A'r Sarah Jones ä drwy
Gyssylltiad y briodas
Yn Feistres Thomas mwy.

—*Gwarnant.*

Marwgofion.

Awst 19, yn Prengwyn, ger Llandyssul, Evan Humphrey, baban, John a Mary Evans, o Gwm Rhondda, yn 7 mis oed. Claddwyd yn Llwynrhydowen, y gweinidog yn pregethu.

Hydref 2il, Mrs. Catherine Jenkins, anwyl briod Mr. Jenkin Jenkins, Post Office, Felinfach, Ystrad, yn 73 mlwydd oed. Bu am flynyddoedd yn wanaidd ei hiechyd, ond yn alluog i fod o gyssur a defnydd mawr yn ei chartref hyd o fewn i ychydig i'w hymadawiad. Yr oedd yn fam dyner, a phriod hawddgar, gofalus am ei theulu ar bob ystyr. Yr oedd ei geirwiredd a'i gonestrwydd yn creu ymddiried ynddi gan bawb a'i hadwaenai. Bu yn aelod am lawer o flynyddau o eglwys Rhydygwin, a'i rhodiad yn deilwng o'i phroffes. Gadawodd briod ffyddlon mewn hiraeth a galar, wedi bod yn briod am saith mlynedd a deugain, heblaw merch, wyrion, perthynasau, a llawer o gyfeillion. Nerth gaffont oll i ymostwng yn dawel i drefn ddoeth yr Anfeidrol Dad, ac i gofio mai yr Arglwydd a roddodd, ac mai efe a gymmerodd ymaith. Er garwed yr hin ar ddydd ei hangladd, daeth lluaws yn nghyd i ddangos eu parch iddi a'u cydymdeimlad â'r teulu. Yn y tŷ gweinyddwyd ar yr achlysur gan W. Rees, Rhydygwin, a chladdwyd hi yn Ystrad.

Hydref 6ed, yn ddwy flwydd a phedwar mis oed, William, plentyn David a Letitia Davies, Ivor Street, Dowlais. Bu yr un bychan farw o'r Frech Goch. Yr oedd William bach mor fywiog a'r un o deulu Mr. Davies. Un rhybudd etto i brofi mai yn nghanol ein bywyd yr ydym mewn angeu. Claddwyd ei weddillion yn nghladdfa y Pant, pryd y gweinyddwyd gan weinidog Dowlais.

Hydref 11eg, Thomas Evans, Hammonton, N.J., U.D. America. Mab oedd i'r diweddar Rees Evans, Ton-yr-Efail, a nai

i'r Parch. Thomas Evans, gweinidog gynt yn H. D. C., Aberdar. Ganwyd ef yn Ton-yr-Efail, Rhag. 25, 1808. Aeth i America yn 1832, blwyddyn y Geri Marwol, a bu yn trigianu yn Philadelphia a manau ereill. Efe oedd gwneuthurwr y *locomotive engine* gyntaf a roddwyd yn y cylch hwnw. Aelodwyd ef yn Nghyfrinfa 62, Beaver Meadow, o'r Odyddion yn Gorphenaf, 1839, a pharhaodd mewn cyflawn aelodaeth hyd ei fedd. Yr oedd wedi byw y 26 blynedd diweddaf yn Hammonton. Claddwyd ef ar y 15ed, pryd y gweinyddwyd gan y Parch. D. T. Davies.—*Y Drych.*

Hydref 13eg, yn dair blwydd a deg mis, Evan James, mab Mr. a Mrs. Evans, Overton St., Dowlais. Ar ddechreu ei fywyd yr oedd Evan James wedi dyoddef yn enbyd oddiwrth *fits*, ond yn ddiweddar yr oedd ei rieni yn credu yn gryf y buasai yn dyfod yn fachgen hoenus. Pan mewn cyfnod dyddorol iawn mewn ieuenctid symmudwyd ef i'r wlad yr ochr draw. Rhaid cofio o hyd fod ffyrdd yr Arglwydd yn wahanol i ffyrdd dynion. Ar y 17, gweinyddwyd yn yr annedd-dy gan weinidog Dowlais, yna hebryngwyd yr hyn oedd farwol o hono i gladdfa Cefncoedycymmer. Darllenwyd a gweddiwyd yn nghapel y Cefn, gan weinidog Dowlais, a phregethwyd yn fyr a phwrpasol iawn gan y Parch. J. H. Davies.

Hydref 15fed, Richard Davies, Glanrhydypysgod, Llandyssul, yn un-mis-ar-ddeg oed. Claddwyd ef y dydd Llun canlynol yn Capelygroes. Gweinyddodd y Parch. T.T. yn y capel.

Hydref 31, o'r darfodedigaeth, Timothy Davies Rees, Velindreissaf, Pencarreg, ger Llanbedr, yn 43 mlwydd oed. Yr oedd ein cyfaill ymadawedig wedi bod yn wael am lawer o amser, ac yn ystod yr oll o'r amser yma yn graddol wanychu o ddydd i ddydd. Yr oedd ei gydnabod yn teimlo'n sier er ys cryn amser fod clefyd marwol wedi gafaelu yn ei gyfansoddiad, er ei fod ef a rhai o'i anwyliaid agosaf yn parhau i obeithio yn erbyn gobaith y byddai iddo gael gwella. Y mae y Tad Mawr wedi planu y fath serch a'r fath ymlyniad ynom at fywyd, ac at fywyd y rhai a gerir yn fawr genym, fel nad ydym yn rhwydd yn gallu cymmodi am funyd a'r drychfeddwl o golli ein gafael ar y naill neu y llall—o golli ein gafael ar y wedd bresenol ar fywyd. Y mae marwolaeth yn brofiad mor ddieithr i ni. Ond er tyned ac er anwyled y cyssylltiad sydd yn cylymu dynion wrth eu gilydd yn y byd yma, y mae'n rhaid iddo yn gynnarach neu'n ddiweddarach gael ei ddattod. Pe byddai serch ac ymdrechion gwraig a phlant ac ereill yn alluog i arbed bywyd a chadw angeu draw, ni byddai genym y gorchwyl galarus o ysgrifenu am farwolaeth ein cyfaill hwn. Gwnawd pob peth a allai medr meddygon, ymdrechion, ac hunan-ymwadiad perthynasau a chyfeillion wneyd ond yn gwbl ofer. Gadawodd i alaru ar ol wraig ac wyth o blant, ac un chwaer a thad, heblaw perthynasau ereill. Ar ddydd ei angladd, y Iau canlynol, daeth torf anarferol fawr i hebrwng ei gorff i'r bedd, yn mynwent Brondeifi. Nid ydym yn cofio ein bod wedi bod mewn angladd mwy galarus erioed. Yr oedd galar mawr y perthynasau yn tynu dagrau braidd o lygaid y mwyaf dideimlad yn y lle. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. D. R. Williams, (C.M.), ac yn y diws gan Vicar y Plwyf. Yn y capel darllenodd a gweddiodd y Parch. Jno. Thomas, (A.), a phregethodd gweinidog y lle. Gwasanaethwyd ar lan y bedd gan y Parch. Jno. Davies, Alltyplaca. Bydded i'r galarwyr oll gael modd i ymdawelu yw ein gweddi.

Tachwedd 4, yn 76 mlwydd oed, John Davies, Llether Eithinog, Llandyssul, a chladdwyd ef y dydd Sadwrn canlynol yn mynwent Tregroes. Pregethodd y Parch. T. Thomas yn y ty annedd. Hen wr parchus oedd John yn ei gymmydogaeth, Ilon a digrif bob amser. Daeth torf fawr yn nghyd ddydd ei angladd.

Tachwedd 18, yn 42 mlwydd oed, Elizabeth, priod Thomas Thomas, Cwmdyllest, Llandyssul. Hebryngwyd hi i'w bedd yn mynwent Pantdefaid y dydd Gwener canlynol gan dorf fawr o berthynasau a chyfeillion. Dechreuwyd y gwasanaeth yn y capel gan y Parch. W. James, B.A., a phregethodd y Parch. T. Thomas, gweinidog y lle. Gadawodd ddau o blant i alaru eu colled, heblaw ei phriod a'i chwaer a'i mam oedranus. Yr oedd yr ymadawedig wedi bod yn dihoeni am flynyddau yn y darfodedigaeth, ond trwy ofal a thynerwch, a thrwy nerth ei hysbryd calonog a gwydnafaelus ei hun, bu yn abl i fyned oddiamgylch hyd o fewn i dair wythnos i'w marwolaeth. Yr oedd iddi air da yn ei chymmydogaeth, ac yr oedd yn aelod o gynnulleidfa Pantdefaid er yn ieuanc. Heddwch i'w llwch.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

Sylwer fod talladau yn ddyledus gyda'r rhifyn hwn. Gobeithiwn y ceisia pawb scwaro eu cyfrif o hyn i ddiwedd y flwyddyn, fel y gallom ninau dalu'r argraffydd, a gweled yn mha le yr ydym yn sefyll. Carem gychwyn y flwyddyn nesaf yn rhydd o ddyled. Yr ydym yn appelio hefyd at ein pobl ieuainc am help. Da chwi, gyfeillion, helpiwch i helaethu ein cylchrediad, trwy sicrhau i ni dderbynwyr newydd.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau :—Pris 3c., trwy'r post, 3½c. ; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Meirion Cottage,
ABERDARE.

Y CWRDD CHWARTEROL.

Cynnelir y Cwrdd Chwarterol nesaf ar y 30ain a'r 31ain o fis Rhagfyr, yn y Nottais. Traddodir y bregeth boreu dydd Iau gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr. Pwnc y Gymnadledd fydd :—"Yr Addoliad Cyhoeddus, a'r angen gwaeddfawr am ymgyssegriad personol i'w wasanaeth." Darllenir papyr ar y cyfryw gan y Parch. J. H. Davies, Cefn. Taer erfynir am bresenoldeb ein gweinidogion ac ereill.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD.

Mae llawer o ddarllenwyr presenol Yr Ymofynydd wrth bob tebyg nad ydynt erioed wedi clywed son am y Gymdeithas uchod. Cymdeithas ydyw at gynnorthwyo dynion ieuainc i gael addysg rhagbarotoawl ar gyfer y weinidogaeth. Drwg genym ddywedyd fod y *Funds* yn bresenol yn isel iawn, ac felly yr ydym yn apelio at garedigrwydd yr hen danysgrifwyr yn ogystal a rhai newydd, (mae eisieu rhai newydd) fel y gallom helpu ymgeiswyr. Mae y Gymdeithas wedi bod o wasanaeth da yn y gorphenol, gall cyfeillion helpu iddi fod o wasanaeth etto yn y dyfodol. A gawn ni gan y cyfeillion ddwyn y mater gerbron y cynnulleidfaoedd? Ysgrifenydd y Gymdeithas yw y

Gol.

TRECYNON SEMINARY, ABERDARE.

R. JENKIN JONES, M.A., HEAD-MASTER.

☞ *Vacancies for two Boarders. Terms on Application.* ☜

LLYFR CYNTAF I BLANT YR YSGOL SUL

(ail argraffiad),

Gan y diweddar Barch. JOHN JONES, ABERDAR.

Pris—Dwy Geiniog.

Gwerthir 100 o'r uchod yn ol 12 swllt y cant ; a dwsin am 1s. 6c.